# Pwll Gwanhau Lôn y Parc

**Cynllun Lliniaru Llifogydd wedi'i gyflwyno i leihau perygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin i 122 eiddo preswyl a 30 eiddo masnachol, gan gynnwys ysgol leol, yn ardal Aberdâr.**

| Crynodeb o'r Cynllun | |
|---|---|
| Ardal Risg Llifogydd Strategol | Canol Cwm Cynon 1 |
| Lleoliad | Lôn y Parc, Aberdâr |
| Eiddo sy'n elwa | 122 eiddo preswyl a 30 eiddo masnachol, ynghyd ag ysgol leol |
| Math o gynllun | Cynllun Lliniaru Llifogydd Cymhleth |
| Cost | £530,000 |
| Contractwr | Horan Construction |
| Statws | Wedi'i gwblhau |
| Dyddiad cwblhau'r cynllun | Gorffennaf 2021 |
| Tarddiad Cyllid | Grant Cyfalaf FCERM Llywodraeth Cymru |



*Pwll Gwanhau – Cynllun Lliniaru Llifogydd Lôn y Parc, Aberdâr*

## Cefndir y Cynllun

Mae ardal Lôn y Parc yn Aberdâr wedi'i nodi'n ardal sydd â pherygl llifogydd dŵr wyneb uchel a chyrsiau dŵr cyffredin, yn seiliedig ar fapiau Asesiad Perygl Llifogydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ac fe'i nodir yn safle 27 yng Nghymru ar gyfer perygl llifogydd cwrs dŵr cyffredin a dŵr wyneb ar Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR), a ddatblygwyd gan CNC i ddarparu dull gwrthrychol o nodi risg a blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar lefel gymunedol ledled Cymru.

Mae'r ardal wedi bod yn destun sawl digwyddiad llifogydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol oedd llifogydd ar 12 ac 13 Hydref 2018 yn dilyn Storm Callum, lle aeth dŵr i mewn i 5 ystafell ddosbarth ysgol a 2 eiddo, gyda 20 eiddo arall yn dioddef llifogydd allanol. Y digwyddiad yma o lifogydd oedd yr ail ddigwyddiad yn dilyn Storm Bronagh a ddigwyddodd ar 20 a 21 Medi 2018 a nododd yr un lefel o lifogydd mewnol.

## Disgrifiad o'r Cynllun

Prif nod y Cynllun Lliniaru Llifogydd yw lleihau llif dŵr storm o'r dalgylch er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd yn ardal Lôn y Parc, Aberdâr. Bydd hyn yn atal systemau draenio trefol rhag gorlwytho.

Roedd y cynllun yn ymwneud â chreu **gwlyptir gwanhau dalgylch uchaf** trwy **ddad-gylfatio cwrs dŵr cyffredin**, wedi'i gynllunio i hwyluso gostyngiad o **50% i'r brig yn llifo i lawr cwrs dŵr.**

Roedd y gwaith yma'n seiliedig ar egwyddor Rheoli Risg Llifogydd yn Naturiol gydag ystod o welliannau amgylcheddol yn cael eu rhoi ar waith i hwyluso datblygiad **gwlyptir ecolegol amrywiol gyda defnydd amwynder cysylltiedig ar gyfer y gymuned leol**.

Roedd y cynllun yma'n cynnwys creu sianel wedi'i graddio i osod cyfleuster gwahanu dŵr storm o fewn ardal cae Parc Aberdâr a dad-gylfatio rhan o'r cwrs dŵr cyffredin i osod strwythur pont rhychwant lydan ar y llwybr troed presennol sy'n mynd dros y cwrs dŵr. Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys creu llwybr cynnal a chadw o amgylch y basn gwanhau sy'n dyblu fel llwybr amwynder i drigolion lleol a defnyddwyr y parc.

## Buddion y Cynllun

Lleihau perygl llifogydd ar gyfer **122 eiddo a 30 eiddo masnachol, yn cynnwys ysgol leol.**

Technegau **Rheoli Llifogydd yn Naturiol**.

**Ailgyflwyno** amgylchedd naturiol a bioamrywiol.

**Gwell defnydd o amwynderau** i drigolion.

**Gostyngiad o 50% yn y llif brig** i'r cwrs dŵr i lawr yr afon.

**Monitro'r** Basn Gwanhau gyda system **TCC**